

■
Hafan
Pori
Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd
Chwiliad testun rhydd

English




PDF Argraffu Cyfeirnod

Linell Amser English

Hafan Pori Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

HUGHES, JOSEPH TUDOR ('Blegwryd'; 1827 - 1841), bachgen â'i hynododd ei hun yn ei blentyndod fel telynor, etc.



Enw: Joseph Tudor Hughes

Ffugenw: Blegwryd

Dyddiad geni: 1827

Dyddiad marw: 1841

Rhiant: David Hughes

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: bachgen â'i hynododd ei hun yn ei blentyndod fel telynor, etc.

Maes gweithgaredd: Cerddoriaeth; Perfformio

Awdur: Robert (Bob) Owen

Ganwyd 27 Hydref 1827, yn y Bala (?). Dywedir iddo ddangos gallu cerddorol a oedd yn wyrthiol cyn ei fod yn dair oed; yn cyrraedd ei wyth oed rhoesid y ffugenw 'Blegwryd' iddo yn eisteddfod Llannerch-y-medd, 9 Mehefin 1835. Pan oedd tua 12 oed cyhoeddwyd *British Melodies*, yn cynnwys alawon gyda threfniant ganddo ar gyfer y delyn a'r piano. Aeth ei dad ag ef, gyda brodyr eraill, i U.D.A. (1840), gan gynnal cyngerddau yn y White House (Washington), New York, Baltimore, Philadelphia, etc. Yr oedd 'Blegwryd' eisoes, cyn iddo adael Prydain, wedi peri syndod mawr i luoedd o bobl - rhai aelodau o'r teulu brenhinol yn eu plith - a'i gwelodd ac a'i clywodd yn perfformio.

Collodd ei fywyd trwy foddï yn afon Hudson ar 12 Mai 1841.

Brawd iddo oedd **David E. Hughes**, dyfeisydd.

Awdur

Robert (Bob) Owen, (1885 - 1962)

Ffynonellau

Y Cyfaill cylchgrawn misol y Presbyteriaid Cymreig yn America (Utica), Hydref 1841, Medi 1842 - ceir darlun o 'Blegwryd' a'i frodyr ar glawr rhifyn Tachwedd 1840

The Cambrian (Abertawe), 24 Ionawr 1835

Cyfansoddiadau Eisteddfod Llanerchymedd, 1835

Y Gwladgarwr, 1835, 201

'Joseph Hughes, y Plentyn-Delynor', *Y Cerddor*, Awst 1898, tt.86-87

Y Drych (Utica), 6 Tachwedd 1924

Y Seren, 22 Awst 1931-10 Hydref 1931

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **Joseph Tudor Hughes**

Delweddau

John Thomas, **Joseph Tudor Hughes**

Waterhouse Hawkins, Engelmann & Co., **Master Hughes 5 years of age**

Albin Roberts Burt, **Master Hughes the infant Cambrian harpist**

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733737](https://www.wikidata.org/wiki/Q20733737)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

[PDF](#) [Argraffu](#) [Cyfeirnod](#)

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Owen, R. (. (1953). HUGHES, JOSEPH TUDOR ('Blegwryd'; 1827 - 1841), bachgen â'i hynododd ei hun yn ei blentyndod fel telynor, etc.. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 12 Hyd 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-HUGH-TUD-1827>

[Cofrestru](#)

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Nodi gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government